Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Trem Y Glyn**

**Cartref Gofal Preswyl Trem-y-glyn**
**Park Avenue Glyn-nedd**
**Castell-nedd**
**SA11 5DW**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Trem Y Glyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Pobl Care and Support Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Hydref 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae Trem Y Glyn yn gartref gofal gwerthfawr ac uchel ei barch wedi'i leoli yng nghanol y gymuned yng Nglyn-nedd. Mae'r bobl yn cael gofal rhagorol a chyson gan dîm o staff ymrwymedig sy'n eu hadnabod yn dda iawn. Mae'r cynlluniau personol wedi eu hysgrifennu'n dda ac yn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl yn dda iawn. Gall y bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau yn unigol, mewn grŵp, ac yn y gymuned yn rheolaidd. Roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw a'u perthnasau yn canmol y gofal rhagorol a ddarperir yn y gwasanaeth yn fawr iawn.

Mae gan y gwasanaeth sawl ardal gymunedol dan do ac yn yr awyr agored fel gall y bobl ddewis ble i dreulio eu hamser. Mae gweithdrefnau da ar waith i gynnal yr amgylchedd ac mae gwaith adnewyddu o safon uchel wedi cael ei gwblhau yn yr ystafelloedd gwlyb ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n rhagorol ac mae tîm rheoli ymrwymedig iawn i'w weld sy'n adnabod y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn dda iawn. Caiff y staff gofal eu recriwtio, eu hyfforddi, a'u cefnogi'n dda yn eu rolau, ac roeddent yn canmol y tîm rheoli. Mae'r darparwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn cwblhau archwiliadau a gwiriadau sicrhau ansawdd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref ac yn cwblhau'r adroddiadau rheoliadol yn rheolaidd ac yn unol â'r gofynion, ac mae'r rhain yn darparu tystiolaeth fanwl o brofiadau'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae llais y bobl yn cael ei ystyried yn y gwasanaeth a chânt eu cynnwys yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau personol. Caiff y cynlluniau personol eu hysgrifennu o safbwyntiau'r unigolyn, ac maent yn gyfredol gyda llawer o wybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel bod modd i'r staff ddeall yr hyn sy'n bwysig iddynt yn hawdd. Caiff cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd eu cynnal fel bod modd i'r bobl fynegi eu dymuniadau yn y gwasanaeth. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym fod y gofal maent yn ei gael yn rhagorol ac yn diwallu eu hanghenion yn dda iawn. Mae'r perthnasau yn canmol y cyfathrebu gan y gwasanaeth, a'r ymdeimlad o gymuned a geir yn y cartref. Caiff y bobl eu hannog i wneud dewisiadau bob dydd gan gynnwys beth i'w fwyta, yr hyn yr hoffent ei wneud neu ble i dreulio eu hamser. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgysylltu â'r bobl, perthnasau a'r staff mewn ffordd iachus yn ystod ei ymweliadau, gan annog adborth gan y bobl a'r staff i lywio unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn ddiogel, ac maent yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Mae'r rheolwyr a'r staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol diweddaraf ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae gweithdrefnau da ar waith er mwyn cynnal yr adeilad, ac mae trefniadau diogelwch ar waith i sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Mae tîm domestig a golchi dillad gweithgar iawn yn y gwasanaeth sy'n cadw'r gwasanaeth yn lân ac yn rhydd rhag annibendod.

Mae'r bobl wedi meithrin cydberthnasau da ag eraill ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Gwelsom y bobl yn mwynhau chwarae snwcer, yn tynnu lluniau, canu, a dawnsio yn ystod yr arolygiad, ac roedd y bobl yn ymddangos yn hapus gan wenu. Roedd gwir garedigrwydd a chyfeillgarwch i'w gweld rhwng y bobl a'r staff. Roedd y perthnasau a oedd yn ymweld â nhw yn ymddangos yn gyfforddus ac yn fodlon yn ystod eu hymweliadau. Mae gan y gwasanaeth galendr 7o weithgareddau er mwyn i'r bobl edrych ymlaen at y digwyddiadau, a chaiff llawer o luniau a fideos eu rhannu ar y dudalen cyfryngau cymdeithasol preifat sydd ganddynt fel bod modd i berthnasau weld eu hanwyliaid yn cael hwyl. Mae gan gartref Trem Y Glyn enw da iawn yn y gymuned, ac mae'n uchel iawn ei barch gyda'r rhan fwyaf o'r tîm o staff yn byw'n lleol.

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n cael ei oruchwylio'n rhagorol. Mae tîm rheoli hynod ymrwymedig a chyfeillgar yn Trem Y Glyn sydd eisiau sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg i'r safon uchaf posibl. Mae adnoddau archwilio da ar waith yn ogystal â darparwr rhagorol sy'n goruchwylio'r gwasanaeth yn cael ei redeg o ddydd i ddydd. Caiff pob un hysbysiad rheoliadol ei gwblhau yn gyflym ac mae safon yr adroddiadau gofynnol sy'n cael eu cwblhau yn uchel.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal arbennig o dda gan staff gofal, gan ddefnyddio eu cynlluniau personol manwl sy'n adlewyrchu eu hanghenion yn dda. Gwnaethom edrych ar dri ffeil gofal, ac mae pob un o'r cynlluniau personol wedi eu hysgrifennu o safbwynt y person. Mae gwybodaeth dda a manwl ar gyfer y staff gofal i ddeall yr unigolyn a'i hanes yn dda, yn ogystal â'r hyn sy'n bwysig iddo a'r ffordd orau o'i gefnogi. Mae adolygiadau o'r cynlluniau hyn yn gyfredol, ac mae unrhyw ddiweddariad gofynnol wedi cael ei gofnodi. Mae'r broses gyfathrebu gyda pherthnasau yn dda iawn, a dywedodd  y rhai y gwnaethom siarad â nhw "*communication is excellent between staff and family",* a "*Staff are so helpful and understanding of my mother's needs, absolutely fantastic place".*

Mae systemau da ar waith i reoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth ac i fonitro iechyd y bobl. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd system feddyginiaeth electroneg newydd wrthi'n cael ei gweithredu. Gwelwyd y staff gofal yn ceisio defnyddio'r system, ac roedd popeth yn ymddangos yn iawn. Caiff meddyginiaeth ei storio'n briodol yn y gwasanaeth mewn trolïau wedi'u cloi o fewn ystafell feddyginiaeth ddynodedig dan glo bysellbad, gyda pheiriant tymheru ynddi. Gwelsom ei fod yn daclus, gyda lefelau isel o stoc yn weladwy. Caiff y gwiriadau tymheredd eu cofnodi er mwyn storio meddyginiaeth yn ddiogel. Mae sawl un o'r aelodau o staff yn y gwasanaeth wedi bod yn y swydd ers sawl blwyddyn ac o ganlyniad, mae'r parhad gofal i'r bobl yn dda iawn. Gall y staff gofal adnabod unrhyw arwydd o iechyd yn gwaethygu yn gyflym a chymryd y camau priodol. Gwelwyd cofnodion da o apwyntiadau meddygol ac atgyfeiriadau yn y ffeiliau gofal. Gwelsom systemau da ar waith i fonitro pwysau'r bobl a'u cymeriant bwyd/ hylifau, ac roedd y ddogfennaeth y gwnaethom edrych arni yn dangos tystiolaeth bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud mewn modd amserol, a bod ymyriad gan weithwyr proffesiynol eraill yn cael ei geisio pan fo angen.

Gall y bobl wneud pethau maent yn eu mwynhau ac sy'n bwysig iddynt. Mae pob aelod o staff Trem y Glyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gwasanaeth. Gwnaethom glywed staff gofal yn canu a gwelsom gemau'n cael eu chwarae. Gwnaethom hefyd eu clywed yn tynnu coes ei gilydd yn ysgafn a llawer o  gyfeillgarwch rhyngddynt pan roeddem yn ymweld â'r gwasanaeth.  Mae gan y gwasanaeth dudalen cyfryngau cymdeithasol ddynodedig sydd ond yn gallu cael ei defnyddio'n breifat gan berthnasau a ffrindiau'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Ar y dudalen hon, gwelsom sawl digwyddiad yn cael ei gynnal, ac roedd modd gweld y bobl yn gwenu a chwerthin, yn amlwg yn mwynhau eu hunain yn y gwasanaeth. Mae sawl gweithgaredd ar gael yn rheolaidd pob wythnos. Gwnaethom arsylwi ar y drefn amser cinio a gwelsom fod y bobl wedi meithrin cydberthnasau â'i gilydd a'r staff gofal yn y gwasanaeth. Gwelsom fod gofal a hoffter gwirioneddol yn rhyngweithiadau'r bobl â'i gilydd. Roedd adborth gan y bobl a'u perthnasau yn cynnwys "*my family member is well looked after by the staff who are so kind, professional and polite"* a "*they always have lots of activities planned. Excellent care and attention from the staff".*

Mae systemau da ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chael eu hesgeuluso. Mae gan y bobl sydd heb y galluedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn ag agweddau ar eu gofal, eu cymorth a'u llety Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid priodol a chyfredol ar waith. Mae'r holl staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn i adrodd am unrhyw bryderon a all fod ganddynt am y bobl y maent yn eu cefnogi.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y bobl yn dda iawn. Wedi'i leoli yng nghanol tref Glyn-nedd, mae Trem y Glyn wedi bob yn rhan annatod o'r gymuned ers sawl blwyddyn gyda llawer o'r unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn byw o fewn pellter cerdded. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â busnesau ac ysgolion lleol sy'n ehangu ar yr ymdeimlad o gymuned yn y cartref. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ar ei dir ei hun, ac mae cyfleusterau parcio ar gael i'r staff a'r ymwelwyr. Mae ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl fwynhau'r awyr agored gan gynnwys gerddi, iardiau a phatios. Gweithredir mynedfa'r gwasanaeth drwy system fysellbad, ac mae llyfr cofrestru i'r ymwelwyr ei lofnodi. Mae cynllun y gwasanaeth yn galluogi'r bobl i ddewis lle i dreulio eu hamser. Mae ystafell fwyta / gweithgaredd fawr yng nghanol yr adeilad yn ogystal â thair adain sydd ag ardaloedd cymunedol eu hunain ynddynt. Mae naw ystafell wely ymhob adain o'r gwasanaeth, golchfeydd ar wahân, ystafell wlyb/ ymolchi, a thoiledau ar wahân. Yn ogystal â'r llety, mae cegin fawr sy'n cael ei rhedeg yn dda ynghyd â swyddfeydd, ystafell staff a salon gwallt. Nid y darparwr sy'n berchen ar yr adeilad felly mae angen gwneud cynlluniau a chynnal trafodaethau ychwanegol er mwyn cwblhau gwaith adnewyddu mawr. Er hyn, gwelsom fod dwy ystafell ymolchi wedi cael eu hadnewyddu yn ystafelloedd gwlyb o safon uchel ers yr arolygiad diwethaf.

Mae gweithdrefnau da ar waith i nodi a lliniaru'r risgiau iechyd a diogelwch yn y gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar y cofnodion cynnal a chadw a gweld bod y cyfarpar a'r cyfleusterau yn cael eu gwirio'n rheolaidd yn y gwasanaeth, sy'n cynnwys systemau ac ymarferion tân. Mae holl waith gwasanaethu'r cyfleustodau megis nwy a thrydan yn gyfredol a gwelsom dystysgrifau ar waith ar gyfer hyn. Caiff cyfarpar glanhau a chemegau eu storio'n ddiogel a dan glo mewn ystafelloedd golchfa. Cynhaliwyd arolygiad ar iechyd yr amgylchedd yn y gwasanaeth yn ddiweddar a dyfarnwyd sgôr o 5, 'Da iawn', fel sgôr hylendid bwyd iddynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae Trem Y Glyn yn un o nifer o wasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y darparwr lle mae trefniadau goruchwylio rheolaidd ac effeithiol iawn ar waith. Mae gan y darparwr gatalog o bolisïau a gweithdrefnau er mwyn helpu i redeg y gwasanaeth, a chaiff y rhain eu diweddaru yn ôl yr angen i adlewyrchu unrhyw newid i ddeddfwriaeth. Mae rheolwr y gwasanaeth wedi bod yn ei swydd am amser hir ac yn ymrwymedig ac ymroddedig iawn yn ei rôl. Mae'n uchel ei barch gan y bobl, eu perthnasau a'r staff, ac yn cael ei gefnogi'n dda iawn gan y tîm o staff cyson a phenderfynol. Mae pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn y gwasanaeth yn llawn cymhelliant ac angerdd i ddarparu'r gofal gorau posibl i'r bobl. Mae nifer o adnoddau archwilio ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg mor ddidrafferth â phosibl, a chaiff y rhain eu defnyddio gan y rheolwr a'i dîm, yn ogystal ag ymweliadau lefel darparwr a'r tîm sicrhau ansawdd mewnol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cymryd amser i siarad â'r bobl, perthnasau, a'r staff er mwyn casglu eu hadborth am y gwasanaeth ac i lywio gwelliannau. Caiff adroddiadau eu cwblhau yn dilyn yr ymweliadau hyn sy'n dystiolaeth bod yr Unigolyn Cyfrifol yn treulio amser o ansawdd yn y gwasanaeth ac yn profi bywydau'r bobl sy'n byw yno yn uniongyrchol. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys manylion am samplu ffeiliau ar hap ac arsylwi dogfennaeth a digwyddiadau yn y gwasanaeth. Mae gwybodaeth am ymweliadau â'r gwasanaeth yn cyfrannu at yr adolygiad o ansawdd y gofal sydd hefyd yn dangos y gwelliannau a welwyd yn y gwasanaeth a'r camau gweithredu a gymerwyd i wneud hyn.

Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau y caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel, eu hyfforddi'n briodol, a'u cefnogi yn eu rolau. Cawsom olwg ar bedair o ffeiliau personél y staff a gwelsom fod yr holl ddogfennau gofynnol ar gyfer recriwtio'n ddiogel, gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn eu lle. Mae'r staff gofal yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn ddiweddar, maent wedi datblygu'r sesiynau drwy ymgorffori cynllun datblygu ar sail dreigl fel bod modd i'r staff ddatblygu yn eu rolau yn fwy effeithiol. Roedd yr adborth gan staff am y cymorth a'r hyfforddiant yn y gwasanaeth yn gadarnhaol iawn, roedd y sylwadau'n cynnwys "*It's really good, here, we're a good team, get a lot of training and supervision is very often- too often*". Gwnaethom edrych ar y matrics hyfforddiant a gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diweddaraf y darparwr sy'n cynnwys symud a chynorthwyo'r bobl, rhoi cymorth cyntaf brys, a diogelwch bwyd.

Er nad ydynt berchen ar yr adeilad, mae'n amlwg bod y trefniadau ariannol yn cael eu rheoli'n rhagorol yn y gwasanaeth. Roedd y lefelau staffio ar adeg yr arolygiad yn briodol i ddiwallu anghenion y bobl yn y gwasanaeth. Gwnaethom siarad â'r cogydd a ddywedodd bod cyllidebau da ar waith, ac nad oedd problemau ynglŷn â phrynu bwyd o ansawdd uchel i'r bobl ei fwynhau, er bod costau'n cynyddu'n ddiweddar.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/06/2024